YSGOL GYFUN RHYDYWAUN

Polisi Gwisg Ysgol

Defnyddir y Polisi Gwisg Ysgol ar y cyd â pholisiau ysgol eraill – e.e. Polisi Ymddygiad,

Adnewyddwyd: Mai 2016

Yn Ysgol Gyfun Rhydywaun credwn fod dysgu gwisgo'n briodol yn rhan o addysg dda sy'n cyfranogi at ddatblygiad hunan-ddisgyblaeth a hunan-werth. Mae gwisg ysgol gywir yn gosod hinsawdd o safonau uchel, balchder a threfn yn yr ysgol.

Disgwylir i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol lawn a chywir bob dydd yn yr ysgol.

GWISG YSGOL BLWYDDYN 7 - 11

Merched

- Blows ysgol wen blaen llewys byr neu llewys hir gyda botwm lan l'r gwddwg.
- Tei swyddogol yr ysgol.
- Siwmper goch swyddogol yr ysgol â bathodyn yr ysgol arni.
- Crys Polo coch swyddogol yr ysgol gyda bathodyn yr ysgol arno (Misoedd Medi, Hydref, Ebrill, Mai, Mehefin a Gorffenaf yn unig)
- Sgert ddu blaen dim byrrach na thop y penglin
- Trowsus du plaen (**Dim 'jeans', trowsus melfed, malfared, hipsters, trowsus tynn neu drowsus sgio)**
- Teits du, sannau gwyn neu sannau du plaen gyda sgert.
- Sannau du neu gwyn gyda throwsus.
- Addurniadau gwallt e.e clip, band du, coch, aur, arian neu gwyn.
- Esgidiau du plaen sodlau dim uwch na 4cm (caniateitr boots wedi gwisgo o dan drowsus yn ystod tywydd eira yn unig. **Dim esgidiau ymarfer**)
- Cot gaeaf neu cot law du neu glas tywyll – streipen llachar yn dderbyniol.
- Sgarff ddu neu glas tywyll plaen.
- Hetiau gaeaf du neu las tywyll.

Bechgyn

- Crys gwyn plaen llewys byr neu hir. Dim bathodynnau e.e. bathodyn clwb rygbi ar y crys.
- Tei swyddogol yr ysgol
- Siwmper goch swyddogol yr ysgol â bathodyn yr ysgol arni
- Crys Polo coch swyddogol yr ysgol gyda bathodyn yr ysgol arno (Misoedd Medi, Hydref, Ebrill, Mai, Mehefin a Gorffenaf yn unig)
- Trowsus du plaen.
- Sannau du plaen.
- Esgidiau du plaen. (caniateir boots wedi gwisgo o dan trowsus yn ystod tywydd eira yn unig. **Dim esgidiau ymarfer**, dim sandalau pen agored)
- Cot gaeaf neu got law ddu neu las tywyll – streipen llachar yn dderbyniol
- Sgarff ddu neu glas tywyll plaen
- Hetiau gaeaf du neu las tywyll.
-

Dim lliwiau gwallt annaturiol na gwallt gyda phatrymau wedi'u heillio.

Dim gemwaith.

Polisi Gwisg Blwyddyn 12 a 13

- Crys neu flows ysgol wen blaen llewys byr neu lewys hir gyda botwm lan i'r gwddf.
- Tei swyddogol y Chweched (du a melyn).
- Blaser ddu swyddogol yr ysgol â bathodyn yr ysgol arni.
- Trowsus du plaen sy'n cyrraedd yr esgid - **Dim 'jeans', na throwsus tynn na 'leggings'** neu sgert ddu blaen - **dim byrrach na thop y benglin.**
- Teits du neu sanau du plaen gyda sgert. Sanau du gyda throwsus.
- Addurniadau gwallt e.e clip, band du.
- Esgidiau du plaen. **Dim esgidiau ymarfer corff.** Sodlau dim uwch na 4cm (caniateir bŵts wedi eu gwisgo o dan drowsus yn ystod tywydd eira yn unig.) Ni chaniateir bŵts gyda sgert ysgol
- Cot aeaf neu got law du neu las tywyll – streipen llachar yn dderbyniol.
- **Ni chaniateir 'hoodies' na chotiau chwaraeon**
- Sgarff ddu, hetiau gaeaf du neu las tywyll.
- Caniateir un pâr o glustdlysau bach (studs) yn y glust yn unig.

Canlyniadau torri rheol gwisg ysgol

Bydd yr ysgol yn cadw unrhyw eitemau o ddillad sydd yn torri rheolau gwisg yr ysgol hyd at ddiwrnod olaf yr hanner tymor. Mae'r eitemau yma'n cynnwys – hoodies, cotiau nad ydynt yn lliw du neu glas tywyll, siacedi tracwisg, hetiau pêl-fas, sgarffiau nad ydynt yn lliw du neu glas, cardigan, siwmperi arwahân i siwmper swyddogol yr ysgol, addurniadau gwallt â blodau arnynt.

Y Prifathro fydd â'r gair olaf ynglŷn ag unrhyw fater ble mae disgybl wedi torri rheol gwisg ysgol.

Nid oes caniatad gan unrhyw ddisgyblion i wisgo unrhyw dlysau yn yr ysgol. Rhoddir unrhyw dlysau sydd gan ddisgybl i'r Pennaeth Cynnydd priodol. Bydd y Penaeth Cynnydd yn cadw'r tlysau dan glo tan ddiwedd y dydd yn yr achos cyntaf ac yna ym mhob achos arall am bum niwrnod ysgol neu nes iddynt dderbyn llythyr gan riant / warcheidwad yn gofyn am yr eitem yn ôl.

Camau Gweithredu:

Er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch i bawb, hoffwn amlinellu ein camau gweithredu.

Cam 1
Os yw disgybl yn gwisgo cot, hwdi, siwmper, cardigan neu siaced anaddas, mae hawl gan aelod o staff gymryd y wisg a'i gadw tan ddiwedd y dydd/wythnos/tymor.
Cyfrifoldeb y disgybl yw casglu'r eiddo ar ddiwedd y cyfnod.

Os yw disgybl yn gwisgo esgidiau, trowsus neu sgert anaddas, bydd staff yn rhoi rhybudd clir gan ddisgwyl y bydd y wisg gywir gan y disgybl trannoeth.

Cam 2
Os yw disgybl yn parhau i herio'r rheolau gwisg ysgol, yna bydd y Pennaeth Cynnydd a Lles yn cysylltu â'r cartref trwy lythyr a/neu galwad ffôn.

Cam 3
Pan fydd disgybl yn torri'r rheolau gwisg ysgol yn gyson, gwahoddir y rhieni i'r ysgol i drafod y sefyllfa a chymerir camau disgyblu a all gynnwys diarddeliad.

Mewn rhai achosion byddwn yn darparu gwisg addas i'w ddefnyddio dros dro, fel bod y disgybl yn medru dychwelid i wersi.